# Trwyddedu Hurio Preifat a Cherbydau Hacni

## Meini Prawf ar gyfer Addasrwydd

## Gyrwyr a Gweithredwyr

Mehefin 2024



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 2. | Polisi Cyffredinol | 5 |
| 3. | Apeliadau | 6 |
| 4. | Pwerau | 6 |
| 5. | Rhybuddiadau ac Euogfarnau Gwarchodedig | 7 |
| 6. | Opsiynau wrth benderfynu ar gais / trwydded | 7 |
| 7. | Ystyried datgeliadau ynghylch hanes troseddol | 7 |
| 8. | Asesiad o Euogfarnau Blaenorol | 9 |
| 9. | Mân Droseddau Traffig | 14 |
| 10. | Trosddau Yswiriant | 14 |
| 11. | Gwahardd rhag Gyrru | 14 |
| 12. | Gwybodaeth am gyhuddiadau lle na chafwyd euogfarn | 15 |
| 13. | Aildroseddu | 15 |
| 14. | Torri Deddfwriaeth, Is-Ddeddf neu Amod Trwyddedu | 16 |
| 15. | Ymgeiswyr gyda chyfnodau'n preswylio y tu allan i'r DU | 16 |
| 16. | Trwyddedau a gyflwynwyd gan Awdurdodau eraill | 16 |
| 17. | Atodiad A – Troseddau moduro a phwyntiau cosb | 17 |


Ref: WCBC/2023/LF716

DYDDIAD: MEHEFIN 2024

# 1. CYFLWYNIAD

1.1 Diben y polisi hwn yw rhoi canllawiau ar y meini prawf a ystyrir gan y Cyngor wrth benderfynu a yw ymgeisydd neu ddeilydd trwydded presennol yn unigolyn cymwys ac addas i ddal trwydded gyrrwr/gweithredwr cerbyd hurio preifat ac/neu gerbyd hacni.

1.2 Nod y polisi hwn yw gwarchod diogelwch y cyhoedd. Rôl yr Awdurdod Trwyddedu yw sicrhau:

- Bod ymgeisydd neu ddeiliad trwydded presennol yn unigolyn cymwys ac addas;
- Nad yw ymgeisydd neu ddeiliad trwydded presennol yn peri bygythiad i'r cyhoedd;
- Bod y cyhoedd yn cael eu diogelu gan unigolion anonest;
- Bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu;
- Bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu;
- Bod y cyhoedd yn hyderus i ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

1.3 Nid yw'r term "Unigolyn Cymwys ac Addas" at bwrpas trwyddedu tacsi a hurio preifat wedi ei ddiffinio yn gyfreithiol. Fodd bynnag, wrth benderfynu os yw unigolyn yn gymwys ac addas i ddal trwydded, mae'r bobl sy'n gyfrifol am benderfynu ar drwyddedau / ceisiadau mewn gwirionedd yn gofyn y canlynol i'w hunain:

"Heb unrhyw ragfarn, ac yn seiliedig ar y wybodaeth sydd o'ch blaen, a fyddech chi'n caniatáu i rywun yr ydych yn gofalu amdanynt, waeth beth fo'u cyflwr, deithio ar eu pen eu hunain mewn cerbyd sy'n cael ei yrru gan yr unigolyn hwn ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos?"

Os mai "Byddwn" yw'r ateb, yna gellir ystyried yr unigolyn yn gymwys ac addas. Os oes unrhyw amheuon gan y rheiny sy'n gwneud y penderfyniad, yna dylid ystyried ymhellach os dylid rhoi trwydded i'r unigolyn hwnnw.

Er mwyn asesu addasrwydd ymgeisydd (a hysbysu gwneuthurwyr penderfyniadau wrth ateb y cwestiynau uchod), bydd y Cyngor yn cynnal y gwiriadau perthnasol ac angenrheidiol y mae'n eu hystyried yn addas i sicrhau nad yw trwyddedau'n cael eu rhoi i, nac yn cael eu defnyddio gan, bobl anaddas. Wrth asesu addasrwydd ymgeisydd neu ddeiliad trwydded, bydd y Cyngor yn ystyried ffactorau perthnasol a all gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Troseddoldeb
- Cyfnod yn dal trwydded yrru
- Nifer o bwyntiau cosb trwydded yrru ardystiedig
- Yr hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig
- Addasrwydd meddygol
- Safon y gyrru / gallu i yrru

- Ymddygiad yr ymgeisydd wrth wneud y cais (h.y. a ydynt wedi arddangos uniondeb cymeriad yn ystod y broses ymgeisio)
- Hanes trwyddedu blaenorol deiliaid trwydded presennol / blaenorol.
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall a ddarperir gan drydydd parti.

Yn ogystal bydd y Cyngor hefyd yn ystyried ffynonellau gwybodaeth bellach fel yr Heddlu (gan gynnwys hysbysiadau herwgipiad), Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion, awdurdodau trwyddedu eraill ac asiantaethau statudol.

1.4 Mae'r polisi hwn yn ceisio rhoi arweiniad ymarferol i unrhyw un a chanddo diddordeb mewn trwyddedau hurio cyhoeddus a phreifat. Yn enwedig, ond nid wedi'u cyfyngu i:

- Ymgeiswyr am drwyddedau gyrwyr / gweithredwyr
- Gyrwyr / gweithredwyr sydd eisoes yn drwyddedig y mae eu trwyddedau'n cael eu hadolygu
- Swyddogion Trwyddedu a'r Heddlu
- Aelodau'r Pwyllgor / Panel Trwyddedu Amgylcheddol (neu unrhyw gorff perthnasol arall sy'n gwneud penderfyniadau)
- Ynadon a Barnwyr sy'n gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau awdurdod lleol

1.5 Lle mae gan swyddogion trwyddedu bwerau dirprwyedig o safbwynt trwyddedau cerbydau hurio preifat / cerbydau hacni, byddant yn defnyddio'r safonau a'r meini prawf hyn wrth wneud penderfyniadau i ddyfarnu neu adnewyddu trwydded. Ym mhob achos arall, cyfeirir ceisiadau am drwyddedau at y Pwyllgor / Panel Trwyddedu Amgylcheddol (neu unrhyw gorff perthnasol arall sy'n gwneud penderfyniadau).

1.6 Mae'r safonau a'r meini prawf a nodir yn y polisi hwn wedi'u pennu yn unol â Safonau Statudol Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat yr Adran Drafnidiaeth a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020 a dogfen Llywodraeth Cymru ar Gysoni Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021. Mae Adran 177(4) o Ddeddf yr Heddlu a Throseddu 2017 yn ei gwneud yn ofynnol, wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â thrwyddedau tacsi a hurio preifat, bod yn rhaid i'r Awdurdod ystyried y safonau a'r meini prawf a nodir yn y polisi hwn.

1.7 Mae'r safonau a'r meini prawf yn y polisi hwn wedi'u gosod yn uniongyrchol i fynd i'r afael â diogelu'r cyhoedd ac mae'n hollbwysig eu bod yn cael eu hystyried yn drylwyr a chyda meddwl agored wrth wneud penderfyniadau. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau unigol a lle mae swyddogion neu'r pwyllgor/panel, wrth wneud penderfyniad, yn gwyro oddi wrth y safonau a'r meini prawf a nodir yn y polisi hwn, rhaid cofnodi'r rhesymau

dros wneud hynny. Gallai methu â chadw at y safonau heb gyfiawnhad digonol fod yn niweidiol i amddiffyniad yr Awdurdod pe byddai her gyfreithiol i benderfyniad.

## 2. POLISI CYFFREDINOL

2.1 Pan fo gan unigolyn euogfarn am drosedd a nodir yn adran 7, byddai disgwyl iddynt:

a. Fod yn rhydd rhag unrhyw euogfarnau am gyfnod priodol (fel y nodir yn adran 7 isod); a

b. Dangos tystiolaeth ddigonol eu bod yn unigolyn cymwys ac addas i ddal trwydded (mae'r cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i gyflwyno tystiolaeth o'r fath).

Nid fydd bod heb euogfarn yn cael ei ystyried yn gyffredinol fel tystiolaeth ddigonol fod unigolyn yn unigolyn cymwys ac addas i ddal trwydded.

2.2 At bwrpas y Polisi hwn, gall "materion eraill i'w hystyried" gynnwys y canlynol, ymhlith eraill:

- euogfarnau troseddol / moduro;
- Achos Llys Milwrol;
- Rhybuddion;
- Rhybuddion cosb benodedig neu rybuddion cosb eraill;
- Gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol neu orchmynion tebyg eraill;
- Torri amodau trwyddedu;
- Rhybuddion neu geryddon ffurfiol;
- Cyhuddiadau neu faterion sy'n aros am achos llys;
- Addasrwydd a phriodoldeb.

2.3 Pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r euogfarn honno na'r mater arall hwnnw.

2.4 Pan fydd ymgeisydd / deilydd trwydded wedi ei gael yn euog o helpu, annog, ymgeisio, cynllwynio, cwnsela, peri, achosi, caniatáu neu ysgogi unrhyw un o'r euogfarnau / materion troseddol / moduro a nodir yn y canllawiau hyn, neu fod unrhyw fater arall i'w ystyried yng nghyswllt hynny, ystyrir yr euogfarn honno/y mater hwnnw'n berthnasol i'r mater dan sylw.

2.5 Y safonau a'r meini prawf a nodir yn y paragraffau isod yw'r rhai a fyddai fel arfer yn cael eu gweithredu i'r cais a'r trwyddedau. Gall y Cyngor wyro oddi wrth y meini prawf hyn; fodd bynnag dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yn unig y dylai wneud hynny.

## 3. APELIADAU

3.1 Mae gan unrhyw ymgeisydd sydd wedi ei wrthod rhag cael trwydded gyrrwr / gweithredwr neu unrhyw yrrwr / gweithredwr trwyddedig y mae ei drwydded wedi ei hatal neu ei dirymu hawl i apelio i Lys yr Ynadon o fewn 21 diwrnod i dderbyn y rhybudd.

## 4. PWERAU

4.1 Mae'r pwerau i ddyfarnu trwyddedau gyrrwr / gweithredwr wedi'u cynnwys yn Adran 51, Adran 55 ac Adran 59 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (y Ddeddf).

4.2 Mae pwerau i atal, dirymu, neu wrthod adnewyddu trwydded gyrrwr wedi'u cynnwys o fewn Adran 61 y Ddeddf, lle bo'r ymgeisydd / deilydd trwydded wedi ei gael yn euog o drosedd sy'n ymwneud ag anonestrwydd, anwedduster, trais; methiant i gydymffurfio gyda darpariaeth Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847; methiant i gydymffurfio gyda darpariaethau Rhan II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976; neu unrhyw achos arall rhesymol.

4.3 Mae Adran 61 (2B) yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu atal neu ddirymu trwydded gyrrwr ar unwaith, os yw'n ymddangos bod angen hynny er diogelwch y cyhoedd. Bydd Hysbysiad Penderfyniad yn egluro pam y gwnaed y penderfyniad hwn yn cael ei roi i'r gyrrwr a bydd mewn grym pan fo'r hysbysiad wedi'i roi i'w gyrrwr. Gall y gyrrwr apelio yn erbyn y penderfyniad hwn, ond ni all yrru yn ystod y cyfnod apelio.

4.4 Mae Adran 62 o'r Ddeddf yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu atal, dirymu neu wrthod adnewyddu trwydded gweithredwr;

- os yw'r ymgeisydd/deiliad trwydded wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd o dan ddarpariaethau Rhan II o'r Ddeddf neu beidio â chydymffurfio â hwy; NEU
- os oes sail i unrhyw ymddygiad ar ran y gweithredwr y mae'n ymddangos i'r Cyngor ei fod yn ei wneud yn anaddas: NEU
- oherwydd unrhyw newid sylweddol ers rhoi'r drwydded o dan unrhyw un o amgylchiadau'r gweithredwr ar y sail y rhoddwyd y drwydded: NEU
- unrhyw achos rhesymol arall.

4.5 Mae Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried yr holl euogfarnau a gofnodwyd yn erbyn ymgeisydd neu ddeilydd trwydded cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat, p'un a yw'r euogfarnau hynny wedi darfod ai peidio. Felly, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried yr holl euogfarnau perthnasol, yn enwedig pan fo hanes hir o droseddu neu batrwm diweddar o droseddu'n gyson.

## 5. RHYBUDDIADAU AC EUOGFARNAU GWARCHODEDIG

5.1 Mae Deddf Adsefydlu Troseddwyr (1974) Eithriadau Diwygio 2013 bellach yn dileu "euogfarnau gwarchodedig" a "rhybuddiadau gwarchodedig" o'r eithriadau.

5.2 Caiff "Troseddau Rhestredig" wastad eu datgelu ac maent yn cynnwys troseddau mwy difrifol, troseddau rhywiol sydd â goblygiadau diogelu ayb. Mae troseddau rhestredig wedi'u nodi yn adran 5 Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2013.

5.3 Mae euogfarn yn **"euogfarn warchodedig"** os:

- Nad yw'n ymwneud â throsedd restredig.
- Ni roddwyd dedfryd o garchar na dedfryd ohiriedig.
- Cafodd ei dderbyn gan unigolyn iau na 18 oed ar adeg yr euogfarn ac mae **pum mlynedd a hanner neu fwy** wedi mynd heibio.
- Cafodd ei dderbyn gan unigolyn iau na 18 oed ar adeg yr euogfarn ac mae **11 mlynedd neu fwy** wedi mynd heibio.

5.3.1 Mae rhybudd yn "rybudd gwarchodedig" os:

- Nad yw'n ymwneud â throsedd restredig.
- Fe'i rhoddwyd i unigolyn 18 oed neu'n hŷn ar adeg y rhybudd ac mae chwe blynedd neu fwy wedi mynd heibio.

## 6. OPSIYNAU WRTH BENDERFYNU AR GAIS / TRWYDDED

6.1 Wrth benderfynu ar gais neu adolygu trwydded gyfredol mae gan y Cyngor yr opsiynau canlynol:

- Cymeradwyo'r cais neu beidio gweithredu ymhellach
- Gwrthod y cais / dirymu'r drwydded / atal y drwydded
- Cyflwyno rhybudd
- Gosod sancsiwn priodol, er enghraifft, hyfforddiant perthnasol

## 7. YSTYRIED DATGELIADAU YNGHYLCH HANES TROSEDDOL

7.1 O dan ddarpariaethau Adrannau 51, 55, a 59 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu sicrhau bod y sawl sy'n ymgeisio am drwydded gyrrwr / gweithredwr, neu i

adnewyddu trwydded o'r fath, yn unigolyn 'cymwys ac addas' i ddal y drwydded honno. Fodd bynnag, os oes unrhyw faterion i'w hystyried yng nghyswllt yr ymgeisydd / deilydd y drwydded, rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried:

- Pa mor berthnasol yw'r drosedd/troseddau i'r drwydded y gwneir cais amdani;
- Pa mor ddifrifol oedd y drosedd/troseddau;
- Pryd gyflawnwyd y drosedd/troseddau;
- Dyddiad yr euogfarn ac oedran yr ymgeisydd ar y pryd;
- Y ddedfryd a roddwyd gan y llysoedd;
- Os ydynt yn rhan o batrwm o aildroseddu;
- Unrhyw ffactorau eraill a allai fod yn berthnasol, er enghraifft:
    - Ymddygiad blaenorol deilydd trwydded bresennol / cyn ddeilydd trwydded,.
    - Os yw'r ymgeisydd wedi camarwain y cyngor ar bwrpas neu wedi dweud celwydd fel rhan o'r broses ymgeisio,
    - Gwybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau / adrannau cyngor eraill

7.2 Mae'n ofynnol i ddeiliaid trwydded yrru hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o fewn saith diwrnod gwaith o:

- dderbyn ardystiad trwydded yrru
- rhybudd cosb benodedig
- rhybudd
- cerydd
- rhybudd gan yr heddlu
- euogfarn droseddol
- achosion troseddol eraill (gan gynnwys eu rhyddfarnu fel rhan o achos troseddol).

Bydd methu gwneud hynny yn codi cwestiynau difrifol i'r Cyngor ynglŷn ag onestrwydd deiliaid trwydded a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth pan fo amgylchiadau o'r fath yn codi neu fel rhan o unrhyw gais adnewyddu.

7.3 Mae'r Cyngor yn cynnal datgeliadau manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer unrhyw ymgeisydd am drwydded hurio preifat a cherbyd hacni. Bydd angen i ymgeiswyr sy'n ceisio am drwydded neu am adnewyddu trwydded gyrrwr gael datgeliad manylach.

7.4 Caniateir i'r Cyngor hefyd ddefnyddio cofnodion a gwybodaeth arall a allai fod ar gael wrth benderfynu ar geisiadau neu hawl i barhau i ddal trwydded. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth a gedwir gan y Cyngor neu Awdurdodau Trwyddedu eraill, a gwybodaeth a ddatgelir gan

yr heddlu o dan Gynllun Datgelu Cyfraith Gyffredin yr Heddlu neu drefniadau tebyg. Mae esiamplau o ffynonellau gwybodaeth o'r fath y gellir eu defnyddio'n cynnwys gwybodaeth gofal cymdeithasol, taliadau budd-dal ayb.

7.5 O dan Adran 57(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, mae'n drosedd i unrhyw un wneud datganiad ffug neu hepgor unrhyw ddeunydd wrth ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol, boed hynny'n fwriadol neu drwy ddiofalwch. Pan fydd ymgeisydd wedi gwneud mynegiad ffug neu ddatganiad ffug ar eu cais i gael neu adnewyddu trwydded, bydd y drwydded fel arfer yn cael ei gwrthod.

7.6 Mae'n ofynnol i ddeiliaid trwydded yrru hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o fewn 48 awr ar ôl cael arestio a rhyddhau, cyhuddo neu euogfarnu:

- unrhyw droseddau rhywiol
- unrhyw drosedd yn ymwneud ag anonestrwydd neu drais
- unrhyw droseddau moduro

Bydd arestiad am unrhyw un o'r troseddau o fewn y cwmpas hwn yn arwain at adolygiad gan yr Awdurdod i weld a yw deiliad y drwydded yn addas i barhau i fod yn drwyddedig. Bydd penderfyniad ar gamau priodol yn cael ei wneud yn ôl cydbwysedd tebygolrwydd.

7.7 Gallai methiant gan ddeiliad trwydded i ddatgelu arestiad, y cynghorir yr Awdurdod dyroddi yn ei gylch wedyn, gael ei ystyried yn ymddygiad sy'n cwestiynu gonestrwydd ac felly addasrwydd deiliad y drwydded waeth beth fo canlyniad yr honiad cychwynnol.

## 8. ASESIAD O EUOGFARNAU BLAENOROL

8.1 Mae deddfwriaeth yn nodi'n benodol bod troseddau sy'n ymwneud ag anonestrwydd, anwedduster neu drais yn bryder wrth asesu a yw unigolyn yn 'gymwys ac addas' i ddal trwydded tacsi neu gerbyd hurio preifat. Mae'r meini prawf mewn perthynas ag euogfarnau blaenorol yn adlewyrchu hyn.

8.2 Mae'r meini prawf hyn yn cydymffurfio â gofynion Safonau Statudol Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat yr Adran Drafnidiaeth (DfT) a dogfen Llywodraeth Cymru ar Gysoni Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020 a mis Mawrth 2021 yn y drefn honno.

8.3 Rhaid i awdurdodau ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun, ac mae gan ymgeiswyr/deiliaid trwydded hawl i ystyriaeth deg a diduedd o'u cais. Lle rhoddir cyfnod isod, cymerir ei fod yn isafswm wrth ystyried a ddylid rhoi neu adnewyddu trwydded yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'r Awdurdod yn rhoi diogelwch teithwyr fel y flaenoriaeth tra'n galluogi

troseddwyr y gorffennol i roi digon o dystiolaeth eu bod wedi cael eu hadsefydlu'n llwyddiannus fel y gallant gael neu gadw trwydded.

8.4 Ar gyfer troseddau sy'n disgyn i gategorïau 1, 2 a 5 isod, dim ond o dan amgylchiadau gwirioneddol eithriadol y rhoddir trwydded. Troseddau sy'n perthyn i bob categori arall lle mae cyfiawnhad digonol dros wneud hynny.

| Categori | Math o Drosedd | Isafswm cyfnod amser a ddylai fynd heibio o ddyddiad y drosedd, yr euogfarn neu ddyddiad cwblhau'r ddedfryd cyn ystyried a ddylid rhoi neu adnewyddu trwydded. (Pa un bynnag sydd fwyaf diweddar) |
|---|---|---|
| 1 | **Troseddau sy'n arwain at farwolaeth**<br>Lle bo ymgeisydd neu ddeiliad trwydded wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd a arweiniodd at farwolaeth unigolyn arall neu a fwriadwyd i achosi marwolaeth neu anaf difrifol i unigolyn arall. | Dim – ni fyddant yn cael eu trwyddedu |
| 2 | **Camfanteisio**<br>Lle mae ymgeisydd neu ddeiliaid trwydded wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd sy'n ymwneud â neu sydd ag unrhyw gysylltiad â cham-drin, ecsbloetio, defnyddio neu drin unigolyn arall, p'un ai a oedd y dioddefwr neu'r dioddefwyr yn oedolion neu'n blant. Mae hyn yn cynnwys caethwasiaeth, cam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio, meithrin perthynas amhriodol, cam-drin seicolegol, emosiynol neu ariannol, ond nid yw hon yn rhestr gyflawn. | Dim – ni fyddant yn cael eu trwyddedu |
| 3 | **Troseddau yn ymwneud â thrais yn erbyn yr unigolyn**<br>Pan fo gan ymgeisydd euogfarn am drosedd o drais yn erbyn yr unigolyn, neu'n gysylltiedig ag unrhyw drosedd o drais. | 10 mlynedd |
| 4 | **Meddu ar arf**<br>Pan fo gan ymgeisydd euogfarn am feddu arf neu unrhyw drosedd arall yn ymwneud ag arf | 7 mlynedd |
| 5 | **Troseddau rhywiol**<br>Lle bo gan ymgeisydd euogfarn am unrhyw drosedd sy'n ymwneud â gweithgaredd rhywiol anghyfreithlon neu'n gysylltiedig â hynny.<br>Yn ychwanegol, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu, fel arfer, yn rhoi trwydded i unrhyw ymgeisydd sydd ar Gofrestr y Troseddwyr Rhyw neu unrhyw restr wahardd ar hyn o bryd. | Dim – ni fyddant yn cael eu trwyddedu |

| Categori | Math o Drosedd | Isafswm cyfnod amser a ddylai fynd heibio o ddyddiad y drosedd, yr euogfarn neu ddyddiad cwblhau'r ddedfryd cyn ystyried a ddylid rhoi neu adnewyddu trwydded. (Pa un bynnag sydd fwyaf diweddar) |
|---|---|---|
| 6 | **Anonestrwydd**<br>Lle bo gan ymgeisydd euogfarn am unrhyw drosedd lle mae anonestrwydd yn elfen o'r drosedd. | 7 mlynedd |
| 7 | **Cyffuriau (cyflenwi)**<br>Pan fo gan ymgeisydd unrhyw euogfarn am gyflenwi cyffuriau, neu feddu ar gyffuriau gyda'r bwriad o'u cyflenwi neu'n gysylltiedig â meddiant gyda'r bwriad o'u cyflenwi. | 10 mlynedd |
| 8 | **Cyffuriau (meddiant)**<br>Lle bo gan ymgeisydd euogfarn am feddu ar gyffuriau, neu'n ymwneud â bod â chyffuriau yn ei feddiant.<br>O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd yn rhaid i unrhyw ymgeisydd hefyd gael prawf cyffuriau am gyfnod ar eu cost eu hunain i ddangos nad ydynt yn defnyddio cyffuriau rheoledig. | 5 mlynedd |
| 9 | **Gwahaniaethu**<br>Lle mae gan ymgeisydd euogfarn sy'n ymwneud â gwahaniaethu mewn unrhyw ffurf neu'n gysylltiedig ag ef. | 7 mlynedd |
| 10 | **Gyrru dan ddylanwad Alcohol a Chyffuriau**<br>Pan fo gan ymgeisydd euogfarn am yfed a gyrru neu yrru dan ddylanwad cyffuriau.<br>Yn achos gyrru dan ddylanwad cyffuriau, efallai y bydd yn rhaid i unrhyw ymgeisydd hefyd gael profion cyffuriau ar eu cost eu hunain i ddangos nad ydynt yn defnyddio cyffuriau rheoledig. | 7 mlynedd |
| 11 | **Defnyddio Dyfais Llaw wrth yrru**<br>Lle bo gan ymgeisydd euogfarn am ddefnyddio ffôn symudol yn ei law neu ddyfais llaw wrth yrru. | 5 mlynedd |

| Categori | Math o Drosedd | Isafswm cyfnod amser a ddylai fynd heibio o ddyddiad y drosedd, yr euogfarn neu ddyddiad cwblhau'r ddedfryd cyn ystyried a ddylid rhoi neu adnewyddu trwydded. (Pa un bynnag sydd fwyaf diweddar) |
|---|---|---|
| 12 | **Troseddau Traffig Difrifol**<br>Lle mae gan ymgeisydd euogfarn neu ardystiad ar gyfer unrhyw un o'r canlynol:<br>**AC10** Methu â stopio ar ôl damwain<br>**AC20** Methu â rhoi manylion neu roi gwybod am ddamwain o fewn 24 awr<br>**AC30** Troseddau damwain heb eu diffinio<br>**BA10** Gyrru yn ystod gwaharddiad drwy orchymyn llys<br>**BA30** Ceisio gyrru yn ystod gwaharddiad drwy orchymyn llys<br>**DD40** Gyrru'n beryglus<br>**DD90** Gyrru'n wyllt<br>**IN10** Defnyddio cerbyd sydd heb ei yswirio yn erbyn risgiau trydydd parti<br>**LC20** Gyrru heb wneud hynny'n unol â'r drwydded<br>**LC30** Gyrru ar ôl gwneud datganiad anwir am ffitrwydd wrth ymgeisio am drwydded<br>**LC40** Gyrru cerbyd ar ôl methu â rhoi gwybod am anabledd<br>**LC50** Driving after a licence has been revoked or refused on medical grounds<br>**MS50** Gyrru ar ôl i drwydded gael ei diddymu neu ei gwrthod ar sail feddygol<br>**MS60** Rasio moduron ar y briffordd<br>**MS90** Methu â rhoi gwybodaeth ynghylch pwy oedd y gyrrwr, ac ati<br>**UT50** Cymryd cerbyd yn waethygedig<br>Unrhyw drosedd moduro arall sydd wedi denu mwy na 3 phwynt cosb | Ar gyfer un drosedd - 1 flwyddyn<br>Ar gyfer dwy neu fwy o droseddau - 3 blynedd |

## 9. MÂN DROSEDDAU TRAFFIG

9.1 Bydd troseddau traffig eraill sydd heb eu rhestru'n cael eu trin fel 'Mân Droseddau Traffig' at ddibenion y Polisi hwn. Mân drosedd gyrru yw un sy'n derbyn rhwng 1 a 3 pwynt cosb.

9.2 Pan fydd gan ymgeisydd / deilydd trwydded un euogfarn am fân drosedd gyrru, neu fod mater arall i'w ystyried yn gysylltiedig â hynny, ni fydd hyn fel arfer yn arwain at wrthod cais neu atal / ddirymu trwydded ac ni chaiff ei gyfeirio at y Pwyllgor fel arfer.

9.3 Gallai mwy nag un euogfarn am fân drosedd traffig, neu fater arall i'w ystyried yn gysylltiedig â hynny, arwain at wrthod cais, yn arbennig os oes sawl euogfarn neu faterion eraill i'w hystyried ar gyfer yr un drosedd, er enghraifft goryrru. Gellir cyfeirio gyrrwr trwyddedig i'r Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol pan fydd patrwm o aildroseddu dros gyfnod hwy o amser

9.4 Rhestrir yr holl droseddau moduro a phwyntiau cosb yn Atodiad A.

## 10. TROSDDAU YSWIRIANT

10.1 Gellir cyfeirio gweithredwr sydd wedi ei ganfod yn euog o helpu ac annog gyrru teithwyr am logi a derbyn tâl heb yswiriant at y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol. Gallai hyn arwain at atal dros dro neu ddirymu Trwydded y Gweithredwr.

## 11. GWAHARDD RHAG GYRRU

11.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn trin cyfnod o waharddiad fel y cyfnod hwnnw y gallai gyrrwr fod wedi bod yn gymwys i wasanaethu, a gallent ddiystyru penderfyniad llys neu hepgor neu leihau cyfnod gwahardd naill ai ar sail caledi eithriadol o dan A.35 Deddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988 neu am "resymau arbennig" o dan A.34 Deddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988 neu'r *fath anghymhwysiad gostyngol ar ôl cwblhau cwrs adferiad gyrru.*

11.2 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded euogfarn ddiweddar neu fater arall i'w ystyried sy'n arwain at gyfnod o waharddiad o lai na 56 diwrnod oni fydd cyfnod o **o leiaf 12 mis** wedi mynd heibio ers diwedd y cyfnod y gwaharddiad.

11.3 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded euogfarn ddiweddar neu fater arall i'w ystyried sy'n arwain at gyfnod o waharddiad o hyd at 12 mis, oni fydd cyfnod o **o leiaf 18 mis** wedi mynd heibio ers diwedd y cyfnod y gwaharddiad.

11.4 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded euogfarn ddiweddar neu fater arall i'w ystyried sy'n arwain at gyfnod o waharddiad o 12 mis neu fwy, oni fydd cyfnod o **o leiaf 3 blynedd** wedi mynd heibio ers diwedd y cyfnod y gwaharddiad.

11.5 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn dyfarnu cais am drwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni i unigolyn sydd wedi ei wahardd rhag gyrru am gyfnod o 5 mlynedd neu fwy.

## 12. GWYBODAETH AM GYHUDDIADAU LLE NA CHAFWYD EUOGFARN

### Ymgeiswyr Newydd

12.1 Os yw'r ymgeisydd wedi cael ei arestio neu o dan gyhuddiad neu wŷs, gellir parhau i brosesu eu cais, ond bydd rhaid adolygu'r cais ar ddiwedd y trafodion.

12.2 Os yw'r cyhuddiad neu'r wŷs sydd yn yr arfaeth yn ymwneud â throsedd ddifrifol ac neu mae hanes collfarn yr unigolyn yn awgrymu patrwm o ymddygiad anghyfreithlon, yna er budd y cyhoedd gellir atal y cais tan y bydd y trafodion wedi dod i ben neu gellir gwrthod y cais.

### Deiliad Trwydded

12.3 Ar gyfer deiliad trwydded presennol sydd wedi ei arestio, o dan gyhuddiad neu wŷs bydd yr Awdurdod yn ystyried yr holl dystiolaeth a gallai hyn arwain at ddirymu.

12.4 Wrth asesu'r cam i'w gymryd ar gyfer ymgeiswyr newydd a deiliaid trwyddedi presennol, rhaid i ddiogelwch y cyhoedd fod o'r pwys mwyaf.

12.5 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ymwybodol fod y safon brofi perthnasol mewn trafodion troseddol a sifil yn wahanol. Defnyddir y safon brofi sifil wrth wneud penderfyniadau, hynny yw yn ôl pwysau tebygolrwydd.

## 13. AILDROSEDDU

13.1 Er ei bod yn bosibl y bydd gan yr ymgeisydd sawl euogfarn, neu fod materion eraill i'w hystyried, sydd yn bodloni'r canllawiau uchod ar sail unigol, bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd hanes o aildroseddu, sy'n dangos diffyg parch at les eraill neu at eiddo, onid oes cyfnod o 10 mlynedd o leiaf wedi mynd heibio ers y gollfarn neu'r materion eraill mwyaf diweddar i'w hystyried.

## 14. TORRI DEDDFWRIAETH, IS-DDEDDF NEU AMOD TRWYDDEDU

14.1 Mae'n annhebygol y rhoddir trwydded i ymgeisydd a chanddo gollfarn, neu faterion eraill i'w hystyried yn gysylltiedig â thorri deddf, is-ddeddf neu amod trwydded, onid oes cyfnod **o 12 mis o leiaf** wedi mynd heibio ers yr achos mwyaf diweddar o hynny.

14.2 Mae deiliad trwydded presennol y canfyddir eu bod wedi torri deddfwriaeth, is-ddeddf neu amod trwydded, ar yr achlysur cyntaf, yn debygol o dderbyn rhybudd ysgrifenedig ar eu hymddygiad yn y dyfodol, ar yr amod nad oedd yr achos o dorri yn cyfaddawdu diogelwch teithwyr neu nad oedd y cyhoedd mewn perygl.

14.3 Mae'r uchod yn berthnasol heb ystyried unrhyw gamau cyfreithiol sydd ar fynd neu wedi'u cymryd.

## 15. YMGEISWYR GYDA CHYFNODAU'N PRESWYLIO Y TU ALLAN I'R DU

15.1 Os yw ymgeisydd wedi treulio chwe mis di dor neu fwy dramor (ers iddo/iddi fod yn 16 oed) bydd y Cyngor yn disgwyl gweld tystiolaeth o wiriad cofnodion troseddol o'r siroedd / gwledydd a ymwelwyd â hwy dros y cyfnod hwnnw. I ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd, bydd angen datgeliad tebyg i wiriad DBS y DU. Ar gyfer y gwledydd hynny lle nad oes gwiriadau ar gael, bydd angen tystiolaeth o ymddygiad da ar y Cyngor, wedi'i llofnodi gan y llysgenhadaeth berthnasol.

15.2 Nid yw hyn yn effeithio'r angen i ddarparu datgeliad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ffyrdd o gasglu'r dystiolaeth ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

## 16. TRWYDDEDAU A GYFLWYNWYD GAN AWDURDODAU ERAILL

16.1 Pan fydd ymgeisydd am drwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat / hacni neu weithredwr hurio preifat wedi ei gyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol er mwyn cael penderfyniad o safbwynt y polisi hwn, a lle mae'r ymgeisydd eisoes â thrwydded o'r fath gan Awdurdod Trwyddedu arall, dylai'r canllawiau yn y polisi hwn gael blaenoriaeth dros benderfyniad Awdurdod Trwyddedu arall.

## 17. ATODIAD A - TROSEDDAU MODURO A PHWYNTIAU COSB

17.1 Mae'r canlynol yn ganllaw i'r nifer o bwyntiau cosb y gallai llys eu gosod, nid yw'n adlewyrchu'r ffaith y gallai rhai troseddau olygu gwaharddiad rhag gyrru. Mae'r codau hyn wedi eu cofnodi o wybodaeth o'r llysoedd (oedd yn gywir ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon).

**Troseddau'n ymwneud â Damweiniau**

| Cod | Trosedd | Pwyntiau Cosb |
|---|---|---|
| **AC10** | Methu â stopio ar ôl damwain | 5-10 |
| **AC20** | Methu â rhoi manylion neu roi gwybod am ddamwain o fewn 24 awr | 5-10 |
| **AC30** | Troseddau damwain heb eu diffinio | 4-9 |

**Gyrrwr wedi ei Wahardd rhag Gyrru**

| Cod | Trosedd | Pwyntiau Cosb |
|---|---|---|
| **BA10** | Gyrru yn ystod gwaharddiad dan orchymyn Llys | 6 |
| **BA30** | Ceisio gyrru yn ystod gwaharddiad dan orchymyn Llys | 6 |

**Gyrru'n Ddiofal**

| Cod | Trosedd | Pwyntiau Cosb |
|---|---|---|
| **CD10** | Gyrru heb y sylw a'r gofal dyledus | 3-9 |
| **CD20** | Driving without reasonable consideration for other road users | 3-9 |
| **CD30** | Gyrru heb ystyriaeth resymol o ddefnyddwyr eraill y ffordd Defnyddwyr | 3-9 |
| **CD40** | Achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiofal oherwydd diod | 3-11 |
| **CD50** | Achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiofal oherwydd cyffuriau | 3-11 |
| **CD60** | Achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiofal gyda lefel o alcohol uwchben y terfyn | 3-11 |
| **CD70** | Achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiofal ac yna methu darparu sampl i'w dadansoddi | 3-11 |
| **CD71** | Achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiofal ac yna methu darparu sampl i'w dadansoddi ar gyfer cyffuriau | 3-11 |
| **CD80** | Achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiofal neu'n ddifeddwl | 3-11 |
| **CD90** | Achosi marwolaeth drwy yrru: heb drwydded, wedi eu gwahardd rhag gyrru neu heb yswiriant. | 3-11 |

### Construction & Use Of Offences

| Cod | Trosedd | Pwyntiau Cosb |
|---|---|---|
| **CU10** | Defnyddio cerbyd gyda brêc diffygiol | 3 |
| **CU20** | Achosi neu'n debygol o achosi perygl oherwydd defnydd o gerbydau anaddas neu ddefnyddio cerbyd gyda rhannau neu ategolion (ar wahân i frêc, llyw neu deiars) mewn cyflwr peryglus. | 3 |
| **CU30** | Defnyddio cerbyd gyda theiar(s) diffygiol | 3 |
| **CU40** | Defnyddio cerbyd gyda llyw diffygiol | 3 |
| **CU50** | Achosi neu'n debygol o achosi perygl oherwydd llwyth neu deithwyr | 3 |
| **CU80** | Defnyddio ffôn symudol wrth yrru | 6 |

### Gyrru'n beryglus

| Cod | Trosedd | Pwyntiau Cosb |
|---|---|---|
| **DD40** | Gyrru'n beryglus | 3-11 |
| **DD60** | Dynladdiad neu ddynladdiad beius wrth yrru cerbyd | 3-11 |
| **DD90** | Gyrru'n wyllt | 3-9 |

### Alcohol neu Gyffuriau

| Cod | Trosedd | Pwyntiau Cosb |
|---|---|---|
| **DR10** | Gyrru neu geisio gyrru gyda lefel alcohol uwchben y terfyn | 3-11 |
| **DR20** | | 3-11 |
| **DR30** | Gyrru neu geisio gyrru heb fod mewn cyflwr addas oherwydd alcohol | 3-11 |
| **DR40** | Yng ngofal cerbyd gyda lefel alcohol uwch na'r terfyn | 10 |
| **DR50** | Yng ngofal cerbyd heb fod mewn cyflwr addas oherwydd alcohol | 10 |
| **DR60** | Methiant i gyflenwi sampl ar gyfer dadansoddi mewn amgylchiadau heblaw gyrru neu geisio gyrru | 10 |
| **DR61** | Methiant i gyflenwi sampl ar gyfer dadansoddi cyffuriau mewn amgylchiadau heblaw gyrru neu geisio gyrru | 10 |
| **DR70** | Methu darparu sampl ar gyfer prawf anadl | 4 |
| **DR80** | Gyrru neu geisio gyrru heb fod mewn cyflwr addas oherwydd cyffuriau | 3-11 |
| **DR90** | Yng ngofal cerbyd heb fod mewn cyflwr addas oherwydd cyffuriau | 3-11 |

### Troseddau Yswiriant

| Cod | Trosedd | Pwyntiau Cosb |
|---|---|---|
| **IN10** | Defnyddio cerbyd sydd heb ei yswirio yn erbyn risgiau trydydd parti | 6-8 |

### Troseddau Trwyddedu

| Cod | Trosedd | Pwyntiau Cosb |
|---|---|---|
| **LC20** | Gyrru'n groes i amodau trwydded yrru | 3-6 |
| **LC30** | Gyrru ar ôl gwneud datganiad ffug am ffitrwydd wrth wneud cais am drwydded | 3-6 |
| **LC40** | Gyrru cerbyd ar ôl methu â rhoi gwybod am anabledd | 3-6 |
| **LC50** | Gyrru wedi i drwydded gael ei dirymu neu ei gwrthod am resymau meddygol | 3-6 |

### Troseddau Amrywiol

| Cod | Trosedd | Pwyntiau Cosb |
|---|---|---|
| **MS10** | Gadael cerbyd mewn safle peryglus | 3 |
| **MS20** | Reidio anghyfreithlon ar y piliwn | 3 |
| **MS30** | Troseddau stryd chwarae | 2 |
| **MS50** | Rasio moduron ar y briffordd | 3-11 |
| **MS60** | Troseddau sydd heb eu cynnwys dan godau eraill | Fel bo'n Briodol |
| **MS70** | Gyrru gyda nam golwg nad yw wedi ei gywiro | 3 |
| **MS80** | Gwrthod cytuno i wneud prawf golwg | 3 |
| **MS90** | Methu rhoi gwybodaeth am y gyrrwr, ayb. | 3 |

### Troseddau Traffordd

| Cod | Trosedd | Pwyntiau Cosb |
|---|---|---|
| **MW10** | Torri Rheoliadau Ffyrdd Arbennig (ar wahân i derfynau cyflymder) | 3 |

### Croesfannau i Gerddwyr

| Cod | Trosedd | Pwyntiau Cosb |
|---|---|---|
| **PC10** | Torri Rheol Croesfan i Gerddwyr heb ei diffinio | 3 |
| **PC20** | Torri rheoliadau croesfan gerddwyr gyda cherbyd sy'n symud | 3 |
| **PC30** | Torri rheoliadau croesfan gerddwyr gyda cherbyd llonydd | 3 |

### Terfynau Cyflymder

| Cod | Trosedd | Pwyntiau Cosb |
|---|---|---|
| **SP10** | Mynd yn gynt na therfyn cyflymder ar gyfer cerbyd nwyddau 3-6 | 3-6 |
| **SP20** | Mynd yn gynt na therfyn cyflymder ar gyfer math o fodur (ar wahân i gerbydau nwyddau neu deithwyr) | 3 |
| **SP30** | Torri'r cyfyngiad cyflymder statudol ar ffordd gyhoeddus | 3-6 |
| **SP40** | Mynd yn gynt na'r cyfyngiad cyflymder i gerbydau teithwyr | 3-6 |
| **SP50** | Mynd yn gynt na'r terfyn cyflymder ar draffordd | 3-6 |

### Cyfarwyddiadau ac Arwyddion Traffig

| Cod | Trosedd | Pwyntiau Cosb |
|---|---|---|
| **TS10** | Methu cydymffurfio gyda signalau golau traffig | 3 |
| **TS20** | Methu cydymffurfio gyda llinellau gwyn dwbl | 3 |
| **TS30** | Methu cydymffurfio gydag arwydd 'Stop' | 3 |
| **TS40** | Methu cydymffurfio gyda chyfarwyddyd cwnstabl/warden | 3 |
| **TS50** | Methu â chydymffurfio ag arwydd traffig (ac eithrio arwyddion stop, arwyddion traffig neu linellau gwyn dwbl) | 3-6 |
| **TS60** | Methu cydymffurfio gydag arwydd hebryngwyr croesfannau ysgol | 3 |
| **TS70** | Methu cydymffurfio heb ei ddiffinio gydag arwydd cyfarwyddyd traffig | 3 |

### Cod Arbennig

| Cod | Trosedd | Pwyntiau Cosb |
|---|---|---|
| **TT99** | Hysbysu'n ffurfiol am waharddiad rhag gyrru o dan weithdrefn crynhoi pwyntiau cosb Os yw cyfanswm y pwyntiau cosb yn cyrraedd 12 neu fwy o fewn 3 blynedd, mae'r gyrrwr yn agored i gael ei wahardd | 3-6 |

### Lladrad neu Gymryd heb Ganiatâd

| Cod | Trosedd | Pwyntiau Cosb |
|---|---|---|
| **UT50** | Cymryd cerbyd yn waethygedig | 3-11 |